CYNGOR CYMUNED **TREF ALAW** **COMMUNITY COUNCIL**

Porfa Las
01407 730172 Llanddeusant trefalaw@gmail.com
07989 586677 LL65 4AD

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 13 Rhagfyr 2016 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant

Yn bresennol Cadeirydd Ifan Rowlands, Peredur Hughes, Geraint Owen, Owain Owen, John T Rowlands, Hugh Williams, Cynghorydd John W Griffith

Ymddiheuriadau Glyn Hughes, Arthur Jones, Trefor Jones, Ffion Roberts, Iona Phillips

1 **Cofnodion cyfarfod Hydref 2016**

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Hydref 2016 gyda Owain Owen yn cynnig a Hugh Williams yn eilio.

Nad oedd *quorum* o aelodau ar gael i gynnal cyfarfod yn Tachwedd.

2 Datgan diddordeb

Ifan Rowlands a Cyng John W Griffith : eitem 4, Cynllunio – adawodd Mr Rowlands yr adeilad yn ystod y drafodaeth gydag Owain Owen yn y Gadair.

3 Materion â codwyd o cyfarfod Hydref

3.1 Archwiliad 2015-16

Roedd hwn wedi ei cwbwlhau ond dal heb cael infois.

4 Cynllunio

4.1 47C152 - Cais llawn ar gyfer newid yr adeilad allanol i annedd ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir gyferbyn / Full application for conversion of the outbuilding into a dwelling together with the creation of a new vehicular access on land opposite : *Mount Alaw, Llanddeusant*

Derbyn y cynllun ond nodi os bu'n bosib lledau'r 'visibility splay' i'r annedd newydd i'w wneud yn saffach.

5 CSYM/BT: Ymgynghoriad ynglŷn a giosgau ffôn cyhoeddus

Roedd y Clerc wedi ymateb i hwn yn dweud nad oedd gwrthwynebiad gan CCTA i gau'r ciosgau yn Llanddeusant ag Elim am nad oedd galwadau wedi ei wneud ers dros flwyddyn. Roedd y ciosg arall dan sylwi yn Trefor a thu allan i ffin Thref Alaw.

6 CSYM: Pobl sy'n Cysgu Allan : Cyfrif 2016

Nad oedd neb yn gwybod am bobl yn cysgu allan yn Nhref Alaw.

7 CSYM: Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn

Mae Peredur Hughes yn Cadeirydd y Fforwm yma.

8 CSYM: Etholiadau Cyngor Tref/Cymuned 2017 – costau

Nodwyd costau amcannol i gynnal Etholiad yn Mai 2017 fel £1,500 fesul Cymuned neu Ward Gymunedol; yn ogystal os fydd yr etholiad yn Ward yn ddi-wrthwynebiad fe godir tâl o gwmpas £135.

9 Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017

Cytuno i ddosbarthu manylion drws i ddrws oddi wrth Bwyllgor Apêl yr Eisteddfod os byddant yn gadael i'r Clerc cael y wybodaeth, ond ddim i gynhyrchu ayyb.

10 Ardal Talybolion : Eich ardal chi – beth sy'n bwysig?

Clerc i ymateb i'r holiadur.

11 National Grid

Dyddiad cau yr ymgynghoriad ar 16 Rhagfyr. Clerc y ymateb gyda gwrthwynebiad CCTA i'r peilonau ar draws yr Ynys.

12 Materion eraill

12.1 Lonydd: nodwyd cyflwr drwg y lonnydd, enwedig rhwng Llanddeusant a Llanbabo. Clerc i sgwennu i CSYM.

12.2 Plot 3, Elim: Clerc i weld os oess yna amod ar yr adeiladwr i creu pafin ger y tai newydd.

Post / E.bost

CSYM: Penderfyniadau cynllunio – y rhai sy'n dilyn wedi cael caniatâd

47C151	Tyn Ffordd, Elim
47C139A	Tir nesa i Awelfryn, Elim
47C121B	Tir ger Hen Blas, Llanddeusant